

Merched y Wawr 1975–2000

'Toriad y Wawr', dyna oedd y pennawd ar dudalen flaen Papur Pawb ym mis Rhagfyr 1974. Adroddiad ydoedd am gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng ngwaelod y Neuadd Goffa, Tal-y-bont, gyda'r bwriad o sefydlu Cangen o Ferched y Wawr yng nghylch Tal-y-bont. Cadeiriwyd y noson gan Rita Llwyd, a hithau hefyd oedd wedi galw'r cyfarfod. Gwahoddwyd Mrs Millicent Gregory, Comins Coch, un a oedd yn frwd dros y Gymraeg a phopeth Cymreig ac hefyd un a oedd yn Llywydd y Sir o Ferched y Wawr ac un a ddaeth yn ddiweddarach yn Llywydd Cenedlaethol y Mudiad. Cafwyd ganddi hi adroddiad diddorol o hanes ac amcan y mudiad ac yn dilyn ei hanerchiad penderfynwyd mynd ati i sefydlu cangen yma yn Nhal-y-bont.

Etholwyd y canlynol fel swyddogion cyntaf Cangen Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch sef: Cadeirydd: Valma Jones, Y Wern; Is-Gadeirydd: Ann Jenkins Tanrallt; Ysgrifennydd: Rita Llwyd, Clydfan; Trysorydd: Muriel Morgan, Llety'r Gof; Dosbarthydd cylchgrawn Y Wawr: Delyth Jones, Tŷ Eleri a Gohebydd y Wasg: Eleri Huws, Tŷ Gwyn.

Cynhaliwyd noson gyntaf y Cangen ar 1 Ionawr 1975 pryd y cafwyd Swper a Noson Lawen yn y Neuadd Goffa am 7.30 gyda Mr Dafydd Jones, Tŷ Capel yn arwain, a Mrs Millicent Gregory, Llywydd y Sir yn wraig wâdd. Croesawyd pawb i'r Swper gan Mrs Valma Jones.

Cyfansoddwyd cerdd i'r noson gan Y Parchedig Gwyn Evans.

Cafwyd noson gofiadwy iawn i'r cyfarfod cyntaf hwnnw.

Yn y flwyddyn gyntaf honno dim ond tua hanner dwsin o nosweithiau a drefnwyd, ond calonogol iawn oedd y nifer a ymaelododd â'r cangen. Er nad oedd pawb yn hollol hapus bod Cangen o Ferched y Wawr wedi'i sefydlu ar y dechrau. erbyn hyn mae'r cangen wedi hen ennill ei thir. Braf oedd croesawu nifer o ferched a oedd yn aelodau o Sefydliad y Merched i'n mysg ynghyd â llawer o wragedd eraill. Un anhawster a gawsom ar y dechrau oedd nad oedd yna

Merched y Wawr 1975–2000

'Toriad y Wawr' (The Break of Dawn) was the front-page headline of Papur Pawb in December 1974. There followed the report of a public meeting, held in the lower room of the Memorial Hall, Tal-y-bont, with the intention of establishing a branch of Merched y Wawr in the Tal-y-bont area. The meeting was convened and chaired by Rita Llwyd. The guest speaker was Mrs Millicent Gregory, Comins Coch, an enthusiast for the Welsh language and all things Welsh who was also the County President of Merched y Wawr, later becoming the National President of the Movement. She gave an interesting account of the history and objectives of the movement and following her address it was decided to establish a branch here in Tal-y-bont.

The following were elected to become the first officers of the Tal-y-bont and District branch of Merched y Wawr. Chair: Valma Jones, Y Wern; Vice-Chair: Ann Jenkins Tanrallt; Secretary: Rita Llwyd, Clydfan; Treasurer: Muriel Morgan, Llety'r Gof; Distributor of the Wawr Magazine: Delyth Jones, Tŷ Eleri and Press Correspondent: Eleri Huws, Tŷ Gwyn.

The branch met for the first time on January 1, 1975 when a Supper and Noson Lawen were held in the Memorial Hall at 7.30 with Mr Dafydd Jones, Tŷ Capel as compère and Mrs Millicent Gregory, the County President the guest of honour. Mrs Valma Jones welcomed everyone to the supper.

The Rev. Gwyn Evans wrote a poem for the occasion.

That first meeting was an unforgettable evening.

During that first year only about half a dozen meetings were organised, but an encouraging number joined the branch. Although not everyone was happy at the outset that a branch of Merched y Wawr had been founded, the branch is now well established and accepted. It was a pleasure to welcome many ladies who were members of the Women's Institute and many others to join us. At the beginning there was one

Cerdd y Parch. Gwyn Evans / Rev. Gwyn Evans' poem

*Mae heno'n noson lawen
A hithau'n noson fawr,
Rhown deyrnged geiriau'r Awen
I ferched hardd y wawr.
Y noson hon o Galan
Mae yma gwmni llon
I gadw'r gangen ddiddan
Y Flwyddyn Newydd hon.*

*Mae gennym yn Swyddogion
Y gorau os dwi'n dallt
Valma gwraig Ithel dirion
Ann Gwilym o Danrallt.
Mae Rita'n ysgrifenyddes
A gwna ei gwaith â chlod
A Muriel drysoryddes
A'i gofal am y gôd.*

*Dosberthir ein llenyddiaeth
Gan Delyth ar fyr dro
Eleri rydd ohebiaeth
Ym Mhapur Pawb y Fro.
Rhown ninnau 'nôl yr angen
Ein gorau iddynt hwy
I helpu gwaith y Gangen
A'i chadw'n llwyddiant mwy.*

*Yr hen iaith fydd ar dafod,
Hyfryd fydd pawb a'i clyw
A hyn ymhob ymdrafod
A geidw'r iaith yn fyw
Ein Cenedl sydd mewn cyni
A'n hiaith mewn perygl mawr,
I'r Mudiad, rhoi'u holl ynni
Wna Merched hoff y Wawr.*

*Cawn yma ambell ginio
A sgwrs neu ffilm bid siwr
Ac weithiau i'n goleuo
Daw atom ambell tŵr!
Does yma yr un amod
Ond eto da y gwn
Rhaid parchu y cyfamod
A wnawn drwy'r Mudiad hwn.*

*Pob hwyl ar ôl y noson
I'r Mudiad fynd ymlaen
A chofiw'n ddod yn gyson
I'w gynnal gyda graen
Drwy hyn daw inni bleser
A llawer o foddhad
Ein bod ar hyd yr amser
Yn parchu iaith ein gwlad.*

noson rydd ar gael yn y Neuadd Goffa, a bu rhaid inni gynnal ein cyfarfodydd yn yr Ysgol Gynradd, ac yn wir yno y buom hyd 1985 pan benderfynwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Gangen yn Y Wern i symud i'r Neuadd Goffa. Ond ymhellach ym 1988 penderfynu mynd yn ôl i'r Ysgol oherwydd y sŵn ofnadwy oedd yn dod o'r Neuadd Fawr, gan ei bod yn anodd clywed y gwesteion yn siarad a hefyd am ei bod yn oer iawn yn y neuadd waelod.

Ond cythruddwyd Pwyllgor y Neuadd bod Merched y Wawr am gynnal eu nosweithiau yn yr Ysgol a derbyniwyd llythyr gan David Morgan, Alltgoch, un a oedd yn Gadeirydd y Neuadd ar y pryd, yn datgan ei siom nad oeddem yn defnyddio'r Neuadd a'n bod wedi symud i adeilad yn ei farn ef nad oedd yn cario'r drwydded anghenrheidiol i gyfarfodydd.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar y llythyr, gyda rhai yn anghytuno â'r sylwadau, eraill am i'r aelodau ail-feddw, ond penderfynu aros yn yr Ysgol a wnaethpwyd am y flwyddyn honno ac yng nghyfarfod blynyddol 1989, penderfynu mynd yn ôl i'r Neuadd, ac yno yr ydym hyd heddiw yn cynnal ein cyfarfodydd.

difficulty – there was no free evening available at the Memorial Hall. We had to hold our meetings in the Primary School and indeed we remained there until 1985 when it was decided at the Annual General Meeting of the Branch held at the Wern to move to the Memorial Hall. But in 1988 it was decided to return to the School because of the noise from the Main Hall, which made it difficult to hear guests speak and also because it was very cold in the lower room of the hall.

But the Hall Committee was annoyed that Merched y Wawr were holding their meetings at the School and a letter was received from David Morgan, Alltgoch, Chairman of the Hall at the time, expressing his disappointment that we were not using the Hall and had moved to a building which was not, in his opinion, properly licensed for meetings.

The contents of the letter were discussed in detail, some disagreeing with the comments, others wanting members to reconsider. It was decided to remain at the School for that year and at the 1989 annual general meeting it was decided to return to

Mae nifer yr aelodau wedi amrywio o 50 – 80 ac erbyn heddiw mae tua 50 o aelodau.

Arferwyd cynnal y nosweithiau unwaith y mis ar y dechrau cyntaf ac yna mi aed i ddwywaith y mis ond erbyn heddiw unwaith y mis y cyferfydd y gangen. Cafwyd cwmni nifer o ddysgwyr am rai blynyddoedd, ond trueni eu bod wedi peidio â dod i'r cyfarfodydd, gan i ni gael tipyn o hwyl yn eu cwmni, yn arbennig felly pan fyddem yn cynnal ein heisteddfodau ffug. Roedd rhain yn nosweithiau arbennig o dda gyda phob aelod yn cystadlu mewn nifer o gystadleuthau. Arferid gwahodd cangen arall o Ferched y Wawr i gystadlu yn ein herbyn, a byddai'r nosweithiau yn mynd yn rhai maith ond llwyddiannus dros ben.

Yr un yw trefn y rhaglenni a'r nosweithiau wedi bod o'r dechrau cyntaf, gyda phob math o siaradwyr, grwpiau a chorau wedi bod yn ein diddanu, ac aelodau o ganghennau eraill o'r Sir, a hefyd o siroedd Meirion a Maldwyn a ninnau yn ein tro wedi ymweld â nhw fel gwesteion ac erbyn hyn rydym wedi dod yn hen ffrindiau.

Yn y blynyddoedd cyntaf codwyd tipyn o arian i'r Gangen gan Mrs Barbara Jenkins, Cefngweiriog, trwy gynnal gyrfaon chwist, a mawr oedd diolch y gangen iddi.

Ym Medi 1980 penderfynwyd prynu papur pennawd ac enw'r Gangen arno ac fe'i argraffwyd gan Y Lolfa, ac yna yn Nhachwedd 1981 prynwyd llestri Melaware melyn oddi wrth Gangen Abersytwyth a'r Cylch o Gymdeithas Theatr Cymru am £50, gyda phob aelod yn talu 50c yr un am y llestri. Pe byddai unrhyw Gymdeithas am logi'r llestri yna byddai rhaid iddynt dalu £1. Edrychwyd ar ôl y llestri yma am flynyddoedd gan Mrs Glenys Evans, Isallt.

Cymerwyd rhan mewn nifer o raglenni radio megis Piniwn, Whilmentan, Garddio, Hela Sgwarnog ac yn y blaen ac aethpwyd i Gaerdydd i fod yn gynulleidfa ar raglen deledu Hywel Gwynfryn.

Cymerwyd rhan mewn amryw o weithgareddau yn ymwneud â'r Mudiad, megis ym maes chwaraeon e.e. pêl-rwyd, dartiau, tenis bwrdd, nofio ac y.y.b., gan ennill gwobrau lu. Bu eraill yn llwyddiannus mewn cystadleuthau lleol, sirol a chenedlaethol mewn gwaith llaw, gosod blodau, coginio ac ati.

Cynhaliwyd grwpiau trafod llyfrau o dan enw'r Gangen a bu cymaint ag ugain o

the Hall, where we continue to hold our meetings.

The membership has fluctuated between 50 and 80 and today there are about 50 members. At the beginning meetings were held once a month and then twice a month; today they have reverted to once a month. Several Welsh learners joined us for a few years and it is a pity that they no longer attend meetings as we had such fun in their company, especially when we held our mock eisteddfodau. These were excellent evenings with all members competing in several competitions. Another branch of Merched y Wawr would be invited to compete against us, and the evenings would be long drawn out but very successful.

The evening programmes remain the same with all kinds of speakers, groups and choirs entertaining us. Members of other branches of the County and also from Meirion and Maldwyn come to join us and we in turn visit them as their guests; now we are old friends.

During the early years Mrs Barbara Jenkins, Cefngweiriog, organised whist drives to raise money for the Branch, and we were grateful to her for doing so.

In September 1980 it was decided to purchase some headed notepaper with the name of the branch on it; it was printed by Y Lolfa; then in November 1981 yellow Melaware crockery was bought from the Aberystwyth and district branch of 'Cymdeithas Theatr Cymru' for £50, with each member paying 50p towards the cost. Should any Society wish to hire them they would have to pay £1. Mrs Glenys Evans, Isallt looked after the crockery for many years.

We participated in several radio programmes such as Piniwn, Whilmentan, Garddio, Hela Sgwarnog and so on and we went to Cardiff to be in the audience for the Hywel Gwynfryn television programme.

We participated in many activities associated with the movement, for example, sports such as netball, darts, table tennis and swimming, winning numerous prizes. Others were successful in local, county and national competitions in handwork, flower arranging, cookery and so on.

Book discussion groups were held by the Branch and as many as twenty members and friends attended these. In addition we took part in the Book Quiz organized by Ceredigion Library.

aelodau a ffrindiau yn mynychu'r rhain. Yn ogystal â hyn cymerwyd rhan yn y Cwis Llyfrau a drefnwyd gan Lyfrgell Ceredigion.

Teimlaf o'r dechrau ein bod wedi cyfrannu fel cangen yn flynyddol i'r pentref a'r ardal drwy gynnal Gwasanaeth Nadolig a'r casgliadau yn mynd at elusennau lleol. Hefyd rydym wedi rhoi cymorth yng nghinio'r henoed, ac ar stondinau yn Ffair Nadolig y Neuadd Goffa. Yn Genedlaethol cyfranwyd yn ariannol tuag at brynu tŷ i'r Mudiad yn Nant Gwrtheyrn, a hefyd cyfranwyd at brynu Tŷ Mawr Wybrnant, cartref Yr Esgob William Morgan.

Rhaid dweud erbyn hyn bod y mwyafrif o'r aelodau wedi bod yn aelodau o'r pwyllgor ac wedi cymryd rhan fel swyddogion y cangen, ac yn wir mae rhai wedi bod yn Swyddogion y Sir.

Roedd y triapiau blynyddol yn boblogaidd iawn ac, mae'n siwr, erbyn hyn ein bod wedi bod i bob rhan o Gymru. Trwy ffilmiau a sleidiau hefyd teithiwyd o amgylch y byd yng nghwmni'r aelodau hynny a fu ar eu gwyliau i Israel, Norwy, Y Pyramidiau, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, Yr Iwerddon a llawer mwy.

Cafwyd llawer iawn o sbri mewn amryw o'n gweithgareddau blynyddol megis yr Helfa Drysor Geir ac ar droed, ac, i ddilyn, mewn swper mewn gwystai lleol lle byddai'r enillwyr yn cael eu gwobrwyo. Yn wir yng nghinio dathlu 25 penblwydd y cangen cafwyd sylw ein bod yn hoff iawn o giniawa, efallai bod hyn yn wir, gan ein bod yn flynyddol yn trefnu cinio'r cangen, a gwibdaith flynyddol sydd yn gorffen gyda swper ac rydym wedi dathlu penblwydd cyntaf, y 10fed penblwydd a'r 25 penblwydd, does dim rhyfedd ein bod yn edrych mor dda. Ond cofiwch, rydym hefyd wedi ceisio cael gwared â'r holl bwysau rydym yn ei fagu wrth fwyta drwy gynnal gwersi ymarfer corff, cyfle i ymlacio drwy gael gwersi yoga, a chafwyd nifer fawr o deithiau cerdded.

Cafwyd dathliad arall ar y 7fed o Ionawr 1985 pryd roedd Mair a Gwen Jenkins, Tanrallt wedi darparu bwffe hyfryd i dros 80 o aelodau a ffrindiau yn y Neuadd Goffa. Torrwyd a gwnaed y gacen gan Valma Jones ac Enid Gruffudd, y Llywydd ar y pryd a chafwyd noson hwyliog gan ddiweddu gyda Dawnsio Gwerin dan ofal Harry James.

I ddathlu 10fed penblwydd y Cangen cyfansoddwyd penillion ysgafn gan Hilda Thomas, Cwmere a chywydd gan Y Parchedig Gwyn Evans.

I feel that from the outset the branch has made an annual contribution to the village and district by holding a Christmas Service with the collection donated to local charities. We have also assisted at the Elderly Society's dinner and on stalls at the Christmas Fair at the Memorial Hall. On a national level we made a financial contribution towards the purchase of a house for the Movement at Nant Gwrtheyrn, and also contributed towards buying Tŷ Mawr Wybrnant, the home of Bishop William Morgan.

It must be said that the majority of members have been committee members and have served as branch officers, and indeed, some have been County Officers.

The annual trips were very popular and I am sure that we have now been to every part of Wales. Through the medium of films and slides we have also travelled around the world in the company of those members who went on holiday to Israel, Norway, the Pyramids, Italy, the Netherlands, Ireland and many other places.

We have had a lot of fun from many annual activities such as the Treasure Hunt – in cars and on foot, followed by supper in local hotels where the winners were awarded prizes. Indeed, in the dinner held to celebrate the 25th anniversary of the branch, the comment was made that we are very fond of dinners, which perhaps is true, as we organise an annual branch dinner and an annual trip finishing with a supper. We have also celebrated our first anniversary, our 10th anniversary and our 25th anniversary – it is not surprising that we look so well. But remember we have also tried to lose all the weight that we have gained through eating by holding exercise classes, an opportunity to relax with yoga classes and many, long walks.

Another celebration was held on 7th January 1985 when Mair and Gwen Jenkins, Tanrallt had prepared a wonderful buffet for more than 80 members and friends in the Memorial Hall. The cake was made and cut by Valma Jones and Enid Gruffudd, the president at the time. The enjoyable evening ended with Folk Dancing organised by Harry James.

On the occasion of the Branch's 10th anniversary Hilda Thomas, Cwmere wrote some verses and the Rev. Gwyn Evans composed a 'cywydd'.

Mae Merched y Wawr yn ddeng mlwydd oed
A dyma'r peth gorau ddigwyddodd erioed
Cawon gurdd bob pythefnos yn griw bach
sionc
Am gwpaned o de ac ambell i glonc.

Enid yw'r Capten a thipyn o gamp
Oedd dilyn Diana, roedd hi yn hen 'Champ
Pan ddaw blwyddyn nesa, y llywydd fydd
Valma
Os dychwel hi nôl mewn pryd o Awstralia.

Megan Mai a Rita'n ysgrifenyddion reit gall
Os a un peth o le – rhoi'r bai ar y llall.
Barbara'n drysorydd ac rwyf yn gobeithio
Ar ddiwedd y tymor fydd y llyfrau'n
balanso.

Diolch i Mair a Gwen a'r teulu
Am baratoi'r wledd ar gyfer y dathlu
Rowen ni'n falch o glywed ar Stondin Gari
Fod tri Plymouth Rock yn cael eu gwerthu
Rhag ofn ar ôl dod yma i'r cwrdd
Mae tri hen geiliog a gawn ar y bwrdd.

O Garregcadwgan wrth odre Moel Llyn
Ac o Neuadd Fawr a gredwch chwi hyn
Pan fydd pobol y pentref wrth danllwyth go
lew
Daw Beti a Carol drwy'r eira a'r rhew.

O Gwm Eleri daw May a Rosina
Mair Nantddu – dim coel a ddaw Monica
Pobl y Patchin yn dwrddio'n reit grac
Pan fydd Hilda yn refo wrth dalcen y Blac
Dwy o Gwm Udw – Falyri a Leri
Dyma'r rai sy'n ngofal y canu.

Nyrs Morgan a Muriel, Nan a Pam
Y pedair yn llusgo yn araf eu cam
Beatrice, Llewela, Phyllis, Kathleen
Rhain yw'r blaenoriaid a ddaw ar nos Lun
Jano a Rita, Tegwen, Doreen
Medi, Eirian Mai a Margaret a dwy Aileen
Dilys ac Enid, Carys a Siân
A llawer un 'na welais o'r blan
Mae na ddwy neu dair o ardal Glandyfi
Maddeuwch i mi am beidio a'ch entwi
Ond yn fan yma rwy'n teimlo'n flin
Mod i wedi anghofio entwi Christine.

Yn y Stock Broker's Belt – i ni lôn Rhydfach
Mae na rhelyw o ferched sy'n edrych yn iach
Dosbarth Keep Fit – ni wn i y drefen
Ond fod Rita Llwyd wedi andwyo ei chefen
Pan aeth at y meddyg medd ef 'Beth yw'r
trics
A'i dosbarth yw hwn i achosi Slip Discs?
Does gen i ddim amser i drin bob achosion
Cewch fynd at MacFarlen a'ch rhoi ar y
tracsion.

A chwi sy'n bresennol a heb eich entwi
Cariwch ymlaen a pheidiwch â phoeni
A rhai fydd yn dawnsio fan hyn efo Harry
Fe'ch gwelwn chwi fory am ddau yn y
Surgery
Rhai eraill a fwyodd ormod o fwyd
Cewch lawr at Dewi fe gewch Wermod Llwyd

Hilda Thomas

Dyger ar ben ein degawd
Her ein ffydd a stori'n ffawd
O achos inni gychwyn
Cofiw'n oll mae'r cyfan hyn.

Adeg atgofion ydyw
Anos hoff ein hanes yw
Yn llawen daw'r gorffennol
Inni a'n hynt heno'n ôl.

Bu dod i'r cyfarfodydd
Yn hyn o fan inni'n fudd
Yma fel hyn cawsom flas
I weithio i'r gymdeithas.

Onid help i dyfiant hon
Neges ein holl swyddogion?
Addas yw diolch iddynt
Wedi'r gwaith i'r merched gynt.

A Mudiad sy'n rym ydyw
A'r farn geidw'r iaith yn fyw
Dyma orchest y 'Merched'.
Hyn yw eu cri, dyna'r cred.

Dilynwn ddegawd 'leni
Tua'r wawr yn awr awn ni.
Yn ein pwyll teithiwn heb ball
I herio degawd arall.

Gwyn Evans

Ac yn wir dyna a wnaed, aethom ymlaen o nerth i nerth, aelodau yn mynd a rhai eraill yn ymuno, cafwyd sawl ergyd drwy golli rhai a fu'n ffyddlon a gweithgar iawn i'r Gangen, ac erys y cof amdanynt yn fyw o hyd.

Ond siomwyd y gangen yn y blynyddoedd diwethaf gan nad oedd llawer o aelodau o'r oedran 25 – 40 oed yn ymuno â hi, a chan ein bod wedi colli nifer o aelodau hŷn mae nifer yr aelodau wedi mynd i lawr. Ond gobeithio y daw eto dro ar fyd a bydd nifer yr aelodau yn cynyddu ac yng ngeiriau J.R. Jones, Werndeg gynt, ar achlysur dathlu 25 mlynedd y gangen yn ein hannog i gario ymlaen a gwarchod yr iaith y gorffennaf hyn o eiriau. Anodd yw crynhoi mewn gofod mor fyr, holl hanes y Mudiad, ac ymddiheuraf os ydwyf wedi gadael unrhywbeth pwysig allan.

Rita Llwyd

We continued from strength to strength, some members leaving and others joining; we had several losses, losing members who had been faithful and hardworking in the Branch, and memories of them remain today.

During the last few years the branch has been disappointed in that not many members from the 25-40 age group are joining and as we have lost several older members the membership has decreased. But we hope that a change will occur and I shall conclude with the words of J.R. Jones, formerly of Werndeg, who on the occasion of the branch's 25th anniversary encouraged us to continue safeguarding the language. It is difficult to give a full account of the history of the Movement in so short a space and I apologize if I have left out anything important.

Rita Llwyd

Cangen Merched y Wawr, Tal-y-bont (Alaw- Gwnewch Bopeth yn Gymraeg)

*Wel dyma ni gyfeillion
Yn dyfod yma'n awr
Ar ddechrau canrif newydd
Fel merched glân y Wawr,
A chyfle yw i ddathlu
Mor llawen ag erioed,
A'n cangen wedi cyrraedd
Ei phump ar hugain oed*

*Cytgan: Rhown glod i'n cangen ni
Rhown glod i'n cangen ni
Wrth ganu ein cyfarchion
Rhown glod i'n cangen ni.*

*Mor sydyn y diflannodd
Yr holl flynyddoedd hyn,
A'n braint trwy'n holl ofalon
Yw cadw'r fflam ynghyn;
Gan gofio y gorffennol
Mae'n gyfle newydd sbon
I rannu ein profiadau
O fewn y Gangen hon.*

*Mor hyfryd cael nosweithiau
Heb ddynion wrth ein traed,
A chlonc yng nghwmni'n gilydd
Sydd yn cynhesu'r gwaed;
Pob rhaglen yn amrywio -
A llawer math o waith,
Y trafod a'r pwyllgora
Y cyfan yn ein hiaith.*

*A hwn yw'r mudiad newydd
A ddaeth fel pwl o wynt
I'n deffro a'n dyrchafu
O'n hen waseidd-dra gynt;
A bellach ceir pob cangen
Yn gwneud ei rhan drwy'r wlad.
A daear Cymru newydd
Yn gadarn dan ein traed.*

*Wrth ddathlu chwarter canrif,
Diolchwn am y criw
Fu yma drwy'r blynyddoedd
Yn weithgar ac yn driw,
A doed aelodau newydd
I'n croeso eto'n awr
Pob llwyddiant i'r dyfodol
Parhaed ein ffydd a'n gwawr.*



Baner Merched y Wawr (Hugh O. Jones)

The Merched y Wawr Banner (Hugh O. Jones)

1997	1998
MEDI 8 Noson agoriadol yng nghwmni Buddug James Jones	IONAWR 1 Taith Gerdded (gyda John a Mai Leeding)
MEDI 22 Dawnsio llinell gyda Dulcie James	IONAWR 19 Coginio gyda Janet Jones, Llwynglas
HYDREF 13 Ann Jenkins yn dangos fidio o ddigwyddiadau lleol	CHWEFROR 9 Meloni yn arddangos Cwiltio
HYDREF 27 'Ar Daith' gyda Heledd ap Gwynfor	CHWEFROR 23 Sioned Harries, Swyddog Amgylcheddol Merched y Wawr
TACHWEDD 10 Ann Watkin yn sgwrsio am gymeriadau lleol	MAWRTH 9 Dathlu Gwyl Ddewi yng nghwmni Buddug James Jones a Llicris Allsorts
TACHWEDD 24 Aloe Vera gyda Marian Thomas	MAWRTH 23 Bronwen Morgan yn sgwrsio am 'Ofergoelion'
RHAGFYR 8 Cinio Nadolig yn yr Hen Efail	EBRILL 6 Taith adirgel
RHAGFYR 21 Gwasanaeth Nadolig (Bethel, Talybont)	EBRILL 20 Hel Straeon gyda Tegwyn Jones
	MAI 11 Ymweld â Gerddi Coetmor
	MEHEFIN 8 Cyfarfod Blynnyddol
<p>Cynhelir y cyfarfod ydd am 7.30 o'r gloch yng ngwaelod y neuadd</p>	

Rhaglen 1997/1998

1997/1998 programme